

Mae **Torch yr Adfent** yn rhan o'n hen draddodiad Catholig a Christnogol. Fodd bynnag, mae gwir darddiad y traddodiad yn ansicr. Mae tystiolaeth bod pobloedd Germanaidd cyn-Gristnogol yn defnyddio torchau gyda chanhwyllau wedi'u goleuo ynddynt yn ystod dyddiau oer a thywyll mis Rhagfyr fel arwydd o obaith am ddyfodiad y Gwanwyn gyda'i gynhesrwydd a'i ddyddiau estynedig o olau dydd. Erbyn yr Oesoedd Canol, roedd y Cristnogion wedi addasu'r traddodiad hwn ac yn defnyddio torchau Adfent yn rhan o'u paratoad ysbrydol ar gyfer y Nadolig.

Mae symbolaeth torch yr Adfent yn brydf berth. Mae'r dorch wedi'i gwneud o ddail bythwyrdd amrywiol, gan ddynodi bywyd tragwyddol. Mae gan hyd yn oed y dail bythwyrdd hyn ystyr draddodiadol y gellir ei haddasu i'n ffydd: Mae'r llawryf yn arwydd o fuddugoliaeth dros erledigaeth a dioddefaint; y pinwydd, celyn, a'r ywen yn symbol o anfarwoldeb; a'r cedrwydd yn cynrychioli cryfder ac iachâd. Mae gan y gelynnen symbolaeth Gristnogol arbennig hefyd: Mae'r dail pigog yn ein hatgoffa o'r goron ddrain, ac mae un chwedl Saesneg yn sôn am sut y gwnaed y groes o bren y gelynnen. Mae cylch y dorch, nad oes iddi ddechrau na diwedd, yn symbol o dragwyddoldeb Duw, anfarwoldeb yr enaid, a'r bywyd tragwyddol a geir yng Nghrist. Mae unrhyw foch coed, cnau, neu godennau hadau a ddefnyddir i addurno'r dorch hefyd yn symbol o fywyd ac atgyfodiad.

Fel cyfanwaith, mae'r dorch o ddail bythwyrdd yn darlunio anfarwoldeb ein henaid a'r bywyd newydd, tragwyddol a addawyd inni trwy Grist, Gair tragwyddol y Tad, a ddaeth i mewn i'n byd ni gan ddod yn wir ddyn ac a oedd yn fuddugol dros bechod a marwolaeth trwy Ei ddioddefaint, Ei farwolaeth, a'i atgyfodiad. Mae'r cylch o fetel y llunnir y dorch arno yn cynnwys croes sy'n ein hatgoffa o'r dioddefaint hwnnw.

Mae'r pedair kannwyll allanol yn cynrychioli pedair wythnos yr Adfent. Yn y traddodiad Catholig rydym ni'n defnyddio gwahanol liwiau ar gyfer y canhwylau. Tra bod gan draddodiadau eraill bedair kannwyll goch, rydym ni'n defnyddio tair kannwyll porffor ac un o liw rhosyn. Mae'r canhwylau porffor yn symbol o'r weddi, y penyd, a'r aberthau paratoadol a'r gweithredoedd da sy'n rhan o'r cyfnod hwn. Porffor yw lliw litwrgaidd y Grawys yn ogystal â'r Adfent ac mae'r lliw hwn yn ein hatgoffa yn yr Adfent fod yn rhaid i ni baratoi at Ei ddyfodiad trwy droi oddi wrth bechod a thuag ato Ef.

Cyneuir y gannwyll rosliw ar y trydydd Sul, Sul Gaudete, pan fydd yr offeiriad hefyd yn gwisgo gwisgoedd rhosliw yn yr Offeren; Sul Gaudete yw Sul y gorfoledd, oherwydd bod y ffyddloniaid wedi cyrraedd canol cyfnod yr Adfent - mae'r paratoi bellach wedi cyrraedd hanner ffordd ac maen nhw'n agos at y Nadolig. Mae'n cynrychioli symudiad o naws fwy penydol y pythefnos cyntaf i un o ragweld llawen. Mae cynnau'r canhwylau'n raddol yn symbol o'r disgwyliad a'r gobaith sydd ynghlwm â dyfodiad cyntaf ein Harglwydd i'r byd a rhagweld ei ail ddyfodiad i farnu'r byw a'r meirw. Mae kannwyll wen wedi'i gosod yng nghanol y dorch (ar y Groes), sy'n cynrychioli Crist, a chaiff hon ei goleuo ar Noswyl Nadolig. Mae ei golau yn cynrychioli Crist, Goleuni'r byd.

Mae'r Adfent yn dymor arbennig ym mywyd yr Eglwys. Boed i ni ei wneud yn rhan o'n bywyd - hyd yn oed pan fydd y byd seciwlar eisoes wedi dechrau dathlu'r Nadolig!

**Bendith Duw, RAY**